

1872



**Adran Astudiaethau Theatr,
Ffilm a Theledu**



Fframwaith
Rhagoriaeth
Addysgu

Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu

Adeilad Parry-Williams

Prifysgol Aberystwyth

Aberystwyth

SY23 3AJ

Gwybodaeth bwysig

Roedd y wybodaeth a gyhoeddir yn y llyfryn hwn am raglenni gradd yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w argraffu (Hydref 2019), ond gall gynnwys unrhyw gynllun newid o flwyddyn i flwyddyn. Cyn gwneud cais, rydym yn cynghori darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael y wybodaeth a'r manylion diweddaraf am ein cyrsiau, gan gynnwys gofynion mynediad, er mwyn sicrhau fod y cynllun yn addas i'w gofynion.

Cynnwys

3	Croeso
4	Croeso gan Gyn-Fyfyriwr
6	Astudio trwy Gyfrwyng y Gymraeg
8	Cyfleusterau'r Adran
20	Cyrsiau
22	Cysylltiadau â'r Diwydiant / Cyfleoedd i Astudio Dramor
22	Ymchwil yr Adran
24	Sut i wneud cais

+44 (0) 1970 622828

tfts@aber.ac.uk



Croeso

Fel un o'r ychydig adrannau rhyngddisgyblaethol o'i math yng Nghymru ac ym Mhrydain, mae'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu ym Mhrifysgol Aberystwyth yn darparu cyfleoedd dysgu, addysgu ac ymchwil o'r safon uchaf i fyfyrwyr o Gymru ac o bedwar ban byd. A hyn i gyd wedi'i leoli yn harddwch arfordir Ceredigion.



Fel Adran, rydym yn cynnig cynlluniau astudio integredig ym mhob un o'n disgyblaethau, gan gynnig profiad addysgiadol sydd wedi'i wreiddio yn ein gallu i gyfuno dulliau creadigol a beirniadol o astudio, trwy waith ymarferol arloesol a thrwy ymchwil ysgolheigaidd o safon ryngwladol. Bydd y sgiliau deallusol, ymarferol a throsglwyddadwy y byddwch yn eu datblygu yn eich paratoi ar gyfer ystod o yrfaoedd yn y diwydiannau creadigol a thu hwnt.

Mae nifer o'r staff dysgu yn yr Adran yn arweinwyr proffesiynol yn eu meysydd, ynghyd â bod yn ymchwilwyr gweithgar sy'n flaengar yn eu disgyblaethau. Mae gennym hefyd fel Adran berthynas weithredol gydag ystod o gwmnïau, gan gynnwys National Theatre Wales, Music Theatre Wales, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, Theatr Genedlaethol Cymru ac Arad Goch.

Rydym hefyd fel Adran yn falch o'n perthynas weithredol sefydlog gyda phartneriaid allweddol yn y diwydiant, fel y BBC (sydd â stiwdio wedi'i leoli yn yr Adeilad Parry-Williams), S4C, BAFTA Cymru, Fiction Factory, British Council Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi cipolwg o'n darpariaeth, ac yn wahoddiad i chi ymweld â ni yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

Simon Banham
Pennaeth Adran



Croeso gan Gyn-Fyfyriwr

Mae meddwl yn ôl ar fy nghyfnod yn Aber wastad yn rhoi gwên ar fy wyneb. Roeddwn i wrth fy modd ar y cwrs, roedd gen i griw arbennig o ffrindiau, ac roeddem ni gyd yn dod ymlaen yn wych gyda'r darlithwyr hefyd.

Daeth un o fy hoff gyfnodau yn ystod y 3ydd flwyddyn - cyfnod hollol hectic rhwng prosiectau ymarferol o ran perfformio, cyfarwyddo, ac ysgrifennu - ond o leia' roedd hyn yn ein paratoi ar gyfer beth sy'n disgwyl unrhywun sydd am weithio yn y cyfryngau yn y byd 'go iawn'!

Ychydig o wythnosau ar ôl gadael y Brifysgol, ges i waith gyda chwmmi theatr dros yr haf, a chyfle i weithio rhan amser fel cyflwynwraig ar orsaf radio lleol; cyn cael swydd llawn amser gyda chwmmi Nant (bellach Rondo) ar raglen Sgorio. Bron i 13 mlynedd yn ddiweddarach, dyma lle ydw i o hyd, yn gweithio ar gynyrchiadau o Sgorio yn ogystal â rhaglenni pêl-droed byw. Yn debyg i'r cwrs yn y Brifysgol, mae'r swydd yn gofyn am lawer o ymroddiad - rydym yn gweithio oriau hir a hwyr, ond dw i wedi cael profiadau bythgofiadwy - gan gyfarfod a gweithio gyda rhai o bêl-droedwyr enwoca'r byd, ac wedi cael cyfle i deithio ar draws Ewrop.

Dw i mor falch o'r profiadau ges i yn Aberystwyth - ges i gyfle i ddysgu rhai o'r sgiliau allweddol sydd eu hangen ar gyfer gweithio yn y diwydiant, ac yn fwy 'na hynny ges i gyfle i ddod i nabod pobl arbennig ac unigryw fyddai'n aros mewn cysylltiad â nhw ar hyd fy oes. Byswn yn argymhell cyfnod yn Aber i unrhyw un felly, ac a dweud y gwir, mi fyswn yn mynd yn ôl fy hun petawn i'n cael hanner cyfle!

Nicky Thomas





Astudio trwy Gyfrwng y Gymraeg

Mae'r Adran yn cynnig dwy radd sy'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg: Drama ac Astudiaethau Theatr (W401), ac Astudiaethau Ffilm a Theledu (W621). Mae'r cynlluniau hyn yn gymwys ar gyfer Prif Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac Ysgoloriaeth William Salesbury. Gallwch astudio rhannau o radd yn y Cyfryngau ac Astudiaethau Cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd.

Yn ogystal â'r graddau Anrhydedd Sengl uchod, rydym hefyd yn cynnig ystod o gynlluniau Anrhydedd Cyfun, ble mae modd dilyn darpariaeth cyfrwng Gymraeg gan gynnwys cynlluniau ar y cyd gydag Addysg a Chymraeg. Gweler gwefan yr Adran am fwy o wybodaeth.

Bydd yr Adran yn sicrhau fod gan bob myfyriwr sy'n siarad Cymraeg, pa bynnag gwrs a ddilynr, yn derbyn Tiwtor Personol yn y Gymraeg trwy gydol eich cynllun gradd.

Trwy'r Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, mae'r brifysgol yn cynnig cefnogaeth i fyfyrwr, boed hynny ar gyfer sgiliau iaith neu sgiliau astudio, gan hefyd gydlynu a chefnogi ymgeiswyr cymhwyster Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth hefyd yn mwynhau bod yn rhan o gymuned addysgiadol a chymdeithasol Gymraeg heb ei ail, gyda Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth yn trefnu nifer o weithgareddau trwy gydol y flwyddyn.

Mae gan yr Adran berthynas glos â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a bydd ein myfyrwyr yn cyfrannu ac yn mynychu sawl digwyddiad cydweithredol a myfyrwyr o sefydliadau eraill yn ystod y flwyddyn.

Cyfleusterau'r adran

Mae gennym adnoddau a chyfarpar rhagorol, wedi'u lleoli ar draws tri safle gwahanol ar y campws ac yn dref, gan gynnwys:

- tair stiwdio ymarfer gydag offer proffesiynol
- stiwdio deledu, gan gynnwys galeri
- labordy ffilm analog
- cyfleusterau gwisgoedd a wardrob
- stiwdio neilltuol ar gyfer gwaith senograffi, wedi'i lleoli yng nghanol y dref
- lleoliad a thirwedd bydd yn eich ysgogi a'ch ysbrydoli

Rydym hefyd wedi ein lleoli daflad carreg oddi wrth:

- Canolfan Celfyddydau Aberystwyth, un o ganolfannau celfyddydol mwyaf y DU
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru

Mae tref Aberystwyth a'r cyffiniau yn darparu sawl gofod arall, rhai ffurfiol ac anffurfiol, a gaiff eu defnyddio ar gyfer nifer o brosiectau trwy gydol y flwyddyn. Mae'r gofodau hyn oll yn ein galluogi i gwrdd â'r ystod eang o ofynion sydd gan fyfyrwyr, staff ac ymarferwyr gwadd.



Parry-Williams: Prif Adeilad yr Adran



Joseph Parry: Stiwdio Senograffeg



Theatr y Castell: lleoliad yr Adran yn y dref



Llyfrgell Genedlaethol Cymru



Canolfan Y Celfyddydau





Drama ac Astudiaethau Theatr

BA (Anrh)

Fel cyfrwng sydd yn bodoli mewn gofod ac mewn amser, mae'r theatr o hyd yn gofyn cwestiynau ac yn cynnig cyfleoedd cyffrous i arbrofi, i ddansoddi, ac i ystyried dulliau newydd o greu ac o gyd-greu. Ar y radd hon byddwch yn astudio'r hyn y bu theatr yn y gorffennol, yn ystyried yr hyn yw theatr yn y presennol, ac yn cael eich paratoi i'r siapio'r hyn gall theatr fod yn y dyfodol. Gan blethu'r damcaniaethol gyda'r ymarferol, y byw gyda'r digidol, cewch eich galluogi i feddwl yn greadigol ac i ddatblygu eich sgiliau fel ymarferydd theatr, gan eich paratoi ar gyfer ystod o swyddi posib, yn y diwydiannau creadigol a thu hwnt.

Gyda chefnogaeth staff a gydnabyddir yn rhyngwladol ac sydd yn meddu ar arbenigedd eang ac amrywiol, cewch gyfle yn ystod y radd i brofi ac archwilio ystod o arferion theatr a pherfformio cyfoes, o ddramâu sydd wedi'u sgriptio i berfformiadau safle-benodol, o glasuron Shakespeare i Gelf Byw, o theatr gorfforol i'r arbrofion diweddaraf â chyfryngau newydd.

I gael rhagor o wybodaeth am y cwrs hwn a'r dewisiadau Anrhydedd Cyfun, ewch i www.aber.ac.uk/cy/tfts

Ffeithiau Allweddol



Math o radd: BA.



Cod UCAS: W401 (W400 Drama and Theatre Studies, W402 gyda blwyddyn mewn diwydiant).



Hyd: 3 blynedd (mae W402 yn 4 blynedd).



Ysgoloriaethau cymwys (*W401 yn unig): Ysgoloriaeth William Salesbury, Ysgoloriaeth Cyngor Gwynedd a'r Prif Ysgoloriaeth (CCC).



Cwrs cyfrwng Cymraeg

*W401 yn unig

Modiwlau

Isod ceir rhestr sy'n amlinellu'r modiwlau craidd y gellir eu hastudio ar y cwrs yma. Ceir hefyd gyfle i astudio modiwlau opsiynol a all amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Modiwlau craidd y flwyddyn gyntaf:

- > Sylfeini Perfformio 1: Corff, Cymeriad a Thestun
- > Sylfeini Perfformio 2: Actio i Gamera
- > Dadansoddi Perfformiadau Amlgyfrwng
- > Prosiect Actio
- > Theatr yr Ugeinfed Ganrif
- > Dadansoddi Digwyddiad

Yr ail flwyddyn:

- > Seiliau Ymarfer Cynhyrchu
- > Sgiliau Sgriptio

Y drydedd flwyddyn:

- > Prosiect Cynhyrchu Uwch
- > Ysgrifennu Sgript

Astudiaethau Ffilm a Theledu


BA (Anrh)


Mae ffilm, teledu a'r cyfryngau digidol wrth galon ein byd modern. Nod y cynllun gradd hwn yw rhoi gwell dealltwriaeth i fyfyrwyr o'r rhan hanfodol y maent bellach yn eu chwarae ym mywydau pawb ohonom, ac i baratoi'r myfyrwyr yn ofalus am yrfa werth chweil yn y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau. Byddant yn cynhyrchu eu ffilmiau a'u cynnwys teledu ac aml-lwyfan gwreiddiol eu hunain, ac yn dysgu hefyd sut i archwilio fframweithiau hanesyddol, esthetaidd, economaidd a sefydliadol sy'n hanfodol i gael gwerthfawrogiad lwyf o'r ddisgyblaeth gyffrous hon sy'n ehangu'n gyson.


Fel Adran, rydyn ni'n cynnig addysgu arbenigol ym meysydd creu ffilmiau dogfen, creu ffilmiau ffuglen, creu ffilmiau arbrofol a chynhyrchu stiwdio deledu, yn ogystal â sinema gelf, sinema arswyd a chwlt, sinema byd, genre ac estheteg teledu, diwylliannau digidol a gemau fideo. Mae ein staff dysgu yn ymroddedig ac angerddol am eu meysydd, ac yn cynnwys gwneuthurwyr ffilm, curaduron, sgriptwyr ac ymarferwyr, ochr yn ochr â haneswyr a damcaniaethwyr ffilm a chyfryngau a chanddynt enw da cenedlaethol a rhyngwladol.


I gael rhagor o wybodaeth am y cwrs hwn a'r dewisiadau Anrhydedd Cyfun, ewch i www.aber.ac.uk/cy/tfts


Ffeithiau Allweddol


 **Math o radd:** BA.

 **Cod UCAS:** W621

 **Hyd:** 3 blynedd.

 Mae'r cwrs yma hefyd ar gael drwy gyfrwng y Saesneg (W620).

 Yn amodol ar gael ei chymeradwyo, bydd y radd yma hefyd ar gael fel cwrs pedair blynedd gyda blwyddyn sylfaen. Bydd blwyddyn gyntaf y cwrs yma'n eich codi i lefel mynediad i'r brifysgol, gan eich paratoi ar gyfer y tair blynedd olaf.

 **Ysgoloriaethau cymwys** (*W621 yn unig): Ysgoloriaeth William Salesbury, Ysgoloriaeth Cyngor Gwynedd a'r Prif Ysgoloriaeth (CCC).

 Cwrs
cyfrwng
Cymraeg
*W621 yn unig

Modiwlau

Isod ceir rhestr sy'n amlinellu'r modiwlau craidd y gellir eu hastudio ar y cwrs yma.

Y flwyddyn gyntaf:

- >Astudio Ffilm a'r Cyfryngau
- >Gweithdy Cynhyrchu Cyfryngau
- >Dadansoddi Digwyddiad
- >Prosiect Cynhyrch Cyfryngau

Byddwch hefyd yn astudio modiwlau dewisol.

Yr ail flwyddyn:

- >Dogfen Greadigol
- >Ffilm a Chyfryngau Cymru
- >Ffilmiau Dogfen
- >Sgiliau Sgriptio

Byddwch hefyd yn astudio modiwlau dewisol.

Y drydedd flwyddyn:

- >Ysgrifennu Sgript
- >Ymarfer Creadigol Annibynnol
- >Prosiect Ymchwil Annibynnol
- >Contemporary Film and the Break-up of Britain
- >Gender and the Media
- >Media Law
- >Media Semiotics
- >Contemporary Television Drama
- >Studying Videogames
- >Television and Society





Scenography and Theatre Design

BA (Anrh)

Dan arweiniad ymarferwyr nodedig sy'n gweithio'n rhyngwladol, mae agwedd y cynllun hwn tuag at ddylunio ar gyfer perfformio yn un sy'n arloesol ac yn radical. Byddwch yn edrych tu hwnt i ffiniau sefydledig dylunio set, gwisgoedd, goleuo a sain, ac yn ystyried y gofod perfformio yn ei gyfanrwydd, a hynny fel maes artistig mynegiannol yn ei hawl ei hun. Nid ydym yn ystyried ein gradd mewn Senograffeg a Dylunio Theatr fel cwrs sy'n eich dysgu sut i ddylunio yn unig, ond yn hytrach yn gwrs sydd yn eich gwahodd i archwilio ac ystyried sut gellir gwthio ffiniau'r maes.

Trwy gyfuno archwiliadau ymarferol gyda rhai damcaniaethol, byddwch yn astudio ac yn dadansoddi'n feirniadol ystod eang o ymarferion cyfredol, o theatr draddodiadol i berfformiadau safle-benodol, o theatr amgylcheddol i osodiadau perfformio. O un flwyddyn y radd i'r nesaf, bydd ffocws yr astudio yn canolbwyntio'n gynyddol ar eich ymarfer eich hun fel artist annibynnol, a chewch ddefnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau y byddwch wedi'u hennill a'u datblygu i greu gwaith fydd yn arloesol, yn radical ac sydd yn llwyr fynegi'ch gweledigaeth bersonol, boed hynny du fewn neu du allan i gyd-destun theatr a pherfformio.

Am fwy o wybodaeth am y cwrs yma ac opsiynau eraill, ewch i'n gwefan: www.aber.ac.uk/cy/tfts

Ffeithiau Allweddol



Math o radd: BA.



Cod UCAS: W460.



Hyd: 3 blynedd.



Gallwch astudio'r pwnc yma (fel anrhydedd cyfun) gyda: Ysgrifennu Creadigol, Drama ac Astudiaethau Theatr, ac Astudiaethau Ffilm a Theledu.



Ysgoloriaethau cymwys: Ysgoloriaeth Annog (PA).

22
%

ar gael
drwy'r
Gymraeg

Modiwlau

Isod ceir rhestr sy'n amlinellu'r modiwlau craidd y gellir eu hastudio ar y cwrs yma.

Y flwyddyn gyntaf:

- >Scenography Studio Project
- >Theatre Technologies
- >Scenography Site Projects

Yr ail flwyddyn:

- >Scenographic Composition
- >Theatre Design Project
- >Principles of Scenography
- >Scenography Production Project

Y drydedd flwyddyn:

- >Advanced Studio Practice (Scenography)
- > Advanced Scenographic Project

Ym mhob blwyddyn o'r radd hon byddwch hefyd yn astudio ystod o fodiwlau dewisol. Am ragor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

Film-making

BA (Anrh)

Bydd y radd gyffrous hon mewn Creu Ffilm yn archwilio'r broses o sut y caiff ffilm ei datblygu o'r syniad gwreiddiol, a sut y caiff ffilm ei hariannu, ei ffilmio, ei chwblhau a'i dosbarthu. Nod y radd yw cyflwyno gwybodaeth a datblygu dealltwriaeth ein myfyrwyr wrth iddynt astudio pob agwedd ar gynhyrchu ffilm.

Fel y mae'r enw'n awgrymu, mae hon yn radd ymarferol gydag ethos galwedigaethol cryf. Wrth gynhyrchu ffilmiau gwreiddiol ac wrth weithio gyda'r offer camera, sain ac ôl-gynhyrchu yn yr Adran, bydd y myfyrwyr yn ennill profiad ymarferol gwerthfawr a fydd yn eu paratoi ar gyfer gyrfa o fewn y diwydiant arbennig hwn.

Mae gan yr Adran offer ffilmio arbenigol yn ogystal ag ystafelloedd golygu sydd yn cynnwys meddalwedd AVID a Protools, a stiwdio dylunio sain a sinema pwrpasol, a fydd yn galluogi'r myfyrwyr i ffilmio a chwblhau eu ffilmiau i safon broffesiynol. Mae'r cwrs BA Film Making hefyd yn cydweithio â'r Production Guild of Great Britain i alluogi myfyrwyr y drydedd flwyddyn i ddod yn aelodau, ac mae hynny'n rhoi cyfle iddynt gydweithio ag aelodau'r Guild yn ogystal â defnyddio adnoddau'r Guild.

Mae'r radd wedi'i sefydlu gan staff â phrofiad helaeth gyda dros 35 mlynedd o brofiad o gwblhau a chyflwyno ffilmiau o fewn y diwydiant ffilm rhyngwladol.

Am fwy o wybodaeth am y cwrs hwn ac am opsiynau Gradd Gyfun ewch i www.aber.ac.uk/cy/tfts

Ffeithiau Allweddol



Math o radd: BA.



Cod UCAS: P301.



Hyd: 3 blynedd.



Ysgoloriaethau cymwys: Ysgoloriaeth Cymhelliant (CCC), Uwch Ysgoloriaeth (PA).

33%
ar gael
drwy'r
Gymraeg

Modiwlau

Isod ceir rhestr sy'n amlinellu'r modiwlau craidd y gellir eu hastudio ar y cwrs yma.

Y flwyddyn gyntaf:

- >Introduction to Film Production
 - >Making short films
 - >Introduction to Post production and Editing
- Byddwch hefyd yn astudio modiwlau dewisol.

Yr ail flwyddyn:

Bydd eich ail flwyddyn yn llawn modiwlau dewisol, ac mae ystod ohonynt ichi ddewis o'u plith. Dyma rai enghreifftiau:

- > Cinematography
- > Directing
- > Sound Recording
- > Editing
- > Producing for Film
- > Film Production Project

Y drydedd flwyddyn:

Bydd eich trydedd flwyddyn yn llawn modiwlau dewisol, ac mae ystod ohonynt ichi ddewis o'u plith. Dyma rai enghreifftiau:

- > Sales and Distribution
- > Sound Design and Dubbing
- > VFX and Grading
- > Fiction Film Project

Am ragor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.





Media and Communication Studies

BA (Anrh)

Os hoffech wybod pwy sy'n rheoli a phwy sy'n berchen ar ein cyfryngau, sut y caiff cynnwys ei gynhyrchu a pha fath o effaith y mae'r cyfryngau'n ei gael arnom fel cynulleidfa, mae ein cwrs Astudiaethau'r Cyfryngau a Chyfathrebu yn berffaith ar eich cyfer.

Gan ddysgu'r pwnc trwy ddulliau amlddisgyblaethol, byddwch yn meithrin dealltwriaeth ddeinamig o natur y berthynas rhwng testunau, cynulleidfaoedd a chynhyrchwyr y cyfryngau.

Bwriedir i'r cynllun roi cyfle i chi ddatblygu eich sgiliau creadigol, beirniadol a thechnegol drwy waith ymarferol blaengar, ac ymchwiliadau ysgolheigaidd heriol mewn meysydd megis polisi a hanes y cyfryngau, hysbysebu, newyddiaduraeth ddigidol, cyfraith y cyfryngau, rhywedd a'r cyfryngau, gemau cyfrifiadurol, a diwylliant digidol.

Am fwy o wybodaeth am y cwrs yma ac opsiynau eraill, ewch i'n gwefan: www.aber.ac.uk/cy/tfts

Ffeithiau Allweddol



Math o radd: BA.



Cod UCAS: P300.



Hyd: 3 blynedd.



Ysgoloriaethau cymwys: Ysgoloriaeth Cymhelliant (CCC), Uwch Ysgoloriaeth (PA).

33%
ar gael
drwy'r
Gymraeg

Modiwlau

Isod ceir rhestr sy'n amlinellu'r modiwlau craidd y gellir eu hastudio ar y cwrs yma.

Y flwyddyn gyntaf:

- > Making Short Films
 - > Studying Media
 - > Studying Communication
- Byddwch hefyd yn astudio modiwlau dewisol.

Yr ail flwyddyn:

Bydd eich ail flwyddyn yn llawn modiwlau dewisol, ac mae ystod ohonynt ichi ddewis o'u plith. Dyma rai enghreifftiau:

- > Advertising
- > Stardom and Celebrity
- > Creative Documentary
- > Creative Studio
- > Digital Culture
- > Digital Journalism
- > Media and Society in Wales
- > Television Genre
- > Work in Media Industries

Y drydedd flwyddyn:

Bydd eich trydedd flwyddyn yn llawn modiwlau dewisol, ac mae ystod ohonynt ichi ddewis o'u plith. Dyma rai enghreifftiau:

- > Documentary Production
 - > Experimental Cinema
 - > Experimental Media Production
 - > Gender and the Media
 - > Independent Research Project
 - > Media Law
 - > Media Semiotics
 - > Contemporary Television Drama
 - > Studying Videogame
 - > Television and Society
- Am ragor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

Writing for Broadcasting, Media and Performance

BA (Anrh)

P'un a oes gennych ddi-ddordeb mewn ysgrifennu ar gyfer y teledu, radio neu theatr fyw, bydd y radd hon yn datblygu eich sgiliau ysgrifennu ymarferol mewn amgylchedd bywiog a chefnogol.

Bydd yn rhoi sylfaen gref i chi o ran ysgrifennu ar gyfer gwahanol lwyfannau a chynulleidfaoedd, datblygu eich dealltwriaeth o dechnegau sylfaenol, a meithrin eich hyder. Bydd ein tîm o arbenigwyr yn tanio'ch dychymyg, yn gwella'ch gallu i feddwl yn feirniadol ac yn eich paratoi am yrfa fel awdur proffesiynol.

Am fwy o wybodaeth am y cwrs yma ac opsiynau eraill, ewch i'n gwefan: www.aber.ac.uk/cy/tfts



ar gael
drwy'r
Gymraeg

Modiwlau

Isod ceir rhestr sy'n amlinellu'r modiwlau craidd y gellir eu hastudio ar y cwrs yma.

Y flwyddyn gyntaf:

- >Studying Television
- >Theatre in Context 1
- >Writing Continuing TV Drama
- >Studying Film
- >Theatre in Context 2

Yr ail flwyddyn:

- >Writing for Film and Television
- >Writing Audio Drama


Y drydedd flwyddyn:

- >Scriptwriting 1 and 2 or Playwriting


Ym mhob blwyddyn o'r radd hon byddwch hefyd yn astudio ystod o fodiwlau dewisol, gan gynnwys:


- >Acting: Process and Performance
- >Contemporary British and Irish Drama
- >Contemporary Television Drama
- >Devised Performance Project
- >Directors' Theatre: Staging Modern Drama
- >Film Genre: The Horror Film
- >Shakespeare in Performance
- >Stardom and Celebrity

Ffeithiau Allweddol


 Math o radd: BA.

 Cod UCAS: P302.

 Hyd: 3 blynedd.

 Cyfleoedd i astudio dramor: Oes.

 Teithiau/gwaith maes: Oes.

 Ysgoloriaethau cymwys: Ysgoloriaeth Annog (PA).



Cysylltiadau â'r Diwydiant

Mae'r Adran yn falch o'i pherthynas weithredol a sefydlog gyda phartneriaid allweddol yn y diwydiant, fel BBC Cymru, S4C, Tinopolis, Stiwdios Bad Wolf, National Theatre Wales, Music Theatre Wales, Gŵyl Ffilmiau Ryngwladol Caeredin, Gŵyl Ffilmiau Tribeca a BAFTA Cymru. Rydym hefyd yn Bartner Dysgu AVID ardystiedig.

Cyfleoedd i Astudio Dramor

Mae sawl ffordd y gallwch astudio neu weithio dramor yn ystod eich cyfnod yn y Brifysgol. Yn draddodiadol, mae myfyrwyr yn dechrau ar eu blwyddyn dramor ar ôl yr ail flwyddyn, a hynny am dymor neu am y flwyddyn academaidd gyfan.

I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion am gysylltiadau'r adran â phrifysgolion eraill, ewch i:

www.aber.ac.uk/cy/tfts





Ymchwil yr Adran

Wrth astudio gyda ni, nid yn unig y byddwch yn derbyn addysg o ansawdd uchel, ond byddwch hefyd yn dod yn rhan o Adran a gaiff ei gyrru gan staff sydd hefyd yn weithgar fel ymchwilwyr, ac yn arweinwyr blaengar yn eu meysydd.

Drwy gydol eich astudiaethau, bydd yr ymchwil hwn yn sail i'n haddysgu, a byddwch yn cael eich cyflwyno i ystod eang o ddulliau meddwl, creu, ysgrifennu, arbrofi ac archwilio. Byddwch yn cael eich dysgu gan y bobl sy'n ysgrifennu'r llyfrau, gan y bobl sy'n gwneud y perfformiadau a'r ffilmiau, ynghyd â'r rheini sy'n dadansoddi ac yn beirniadu gwaith o'r fath.

Mae gennym sgrïptwyr, perfformwyr, cyfarwyddwyr, senograffwyr, gwneuthurwyr ffilmiau, cyfathrebwyr y cyfryngau ac academyddion yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd mewn diwylliant o archwilio ar y cyd, sy'n gofyn y cwestiwn hollbwysig yna, "Beth os.....?" Yn edrych ar Theatr, Ffilm a'r Cyfryngau gan gwestiynu beth ydynt ar hyn o bryd, a sut y gallent edrych yn y dyfodol.

Cenhadaeth y Brifysgol yw 'cyfrannu at gymdeithas yng Nghymru a'r byd ehangach drwy gymhwyso ein gwybodaeth i heriau lleol a byd-eang'. I gyflawni hyn, mae'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu yn manteisio ar rwydwaith eang o gysylltiadau a chyweithiau byd-eang er mwyn cynnal ein hymchwil i arwyddocâd theatr, perfformio, senograffeg, ffilm a chyfryngau'r sgrin yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae ein meysydd arbenigedd ymchwil yn cynnwys:

- Perfformio ac anableded
- Estheteg berthynol
- Senograffeg
- Ffilmiau dogfen
- Diwylliant digidol
- Gosodweithiau ar draws ffiniau celf/gwyddoniaeth
- Theatr ôl-ddramatig
- Perfformio a phensaernïaeth
- Perfformio a diwylliant corfforol
- Astudiaethau gwledig - creu ffilmiau
- Creu ffilmiau arbrofol
- Ffilm avant-garde Ffrengig
- Hanes y theatr a'r ddrama Gymraeg
- Perfformio a chymunedau gwledig
- Theatr a pherfformio cyfoes
- Theatr ac amser
- Arferion dysgu a theclynnau digidol
- Theatr a'r cyfryngau newydd
- Darlledu a hunaniaeth genedlaethol
- Hanes y Cyfryngau

Sut i wneud cais

Pan fyddwch wedi penderfynu pa gwrs yr hoffech ei astudio a ble, gallwch ddechrau'r broses o ymgeisio. Dyma gipolwg byr o'r broses a'n gweithdrefnau yma yn Aberystwyth.

1 Gwneud cais trwy UCAS.com

Dyddiad cau 15 Ionawr. Cod sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40

GAIR I GALL: Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

2 Bydd y brifysgol yn ystyried eich cynnig

GAIR I GALL: Defnyddiwch UCAS Track i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 4 wythnos.

3 Bydd y cynnig i'w weld ar UCAS Track

4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau cadarn ac wrth gefn.

5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis cadarn/ wrth gefn gallwch wneud cais am lety (1 Ebrill ymlaen).

6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd UCAS Track yn cadarnhau eich cynnig o le. Os nad ydych yn sicr beth yw'r cynnig, cysylltwch â'r brifysgol yn uniongyrchol. Gwnewch yn sicr nad ydych ar wyliau ar ddiwrnod y canlyniadau. Os nad ydych yn cael y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt, efallai yr hoffech ystyried y broses Glirio

7 Dechreuwch bacio!



